

alltudiaeth a chreu eu gwladwriaeth eu hunain... Mae'r cwestiwn Iddewig wedi cael ei ddatrys, ond nid felly'r cwestiwn Arabaidd. Gobeithio na chymher bynni 50 mlynedd arall.

Meddai'r *Guardian* (30 Ebrill 1998):

Annibyniaeth Israel oedd trychineb y Palestinaid. Nid mater o ddifetha'r parti drwy feiddio sôn am y rhyfel(oedd) mo hyn. Gwrthdaro gyda'r Palestinaid a'r byd Arabaidd ehangach yw'r broblem ganolog sy'n diffinio bywyd Israel o hyd. Heb ei datrys bydd yn dal i fod nid yn unig yn frycheuyn ar orchestion y wlad ond yn ddiffyg sylfaenol, sy'n ei chamffurfio.

A sgrifennodd Dr Jonathan Sacks, Prif Rabbi Cynulleidfaoedd Hebreaid Unedig y Gymanwlad yn y *Times Weekend* (18 Ebrill 1998):

Os chwiliu, fel y gwnaeth y proffwydi, am bresenoldeb Duw yn hanes y ddynolryw, yn sicr dyma lle mae. Ac i Dduw y byddwn yn offrymu diolch ar fwbili Israel. Ond mae'r ymgais i sicrhau heddwch yn parhau. Ddaeth yr Iddewon ddim adref er mwyn gwneud eraill yn ddigartref, na dianc o filoedd o flynyddoedd o ddioddefaint i achosi dioddefaint i boblerail. Mae geiriau Eiseia 25 canrif yn ôl yn dal i ddiffinio'r ber i Israel, a'i gobaith: 'Gwnaf dy lywodraethwyr yn wŷr beddychlon a'th feistradoedd yn gyfiawn. Ni chlywir muwyach am drais yn dy wlad.'

Cyfiawnder

Soniwyd yn gynharach am y perygl fod Iddewon yn derbyn yr addewidion beiblaidd o dir tra'n gwrthod y gofynion moesol oedd yn gysylltiedig â hynny. Prif honiad Canon Naim Ateek yw fod 'heddwch heb gyfiawnder yn fath arall o ormes'. Yn ei lyfr o ddiwinyddiaeth ymryddhaol Balestinaidd, *Justice, and Only Justice* (Orbis, 1990), mae'n sgrifennu fel bugail cynulleidfa Arabeg eu hiaith Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd San Siôr yn Jerwsalem. Does dim amheuaeth ei fod yn iawn yn ei farn na all fod cyfiawnhad diwinyddol dros Wladwriaeth wleidyddol ac na all Gwladwriaeth Israel oroesi ar sail anghyfiawnder. Os yw pobl yn mynd i droi at broffwydi Duw i gyfiawnhau dychwelyd i'w gwlad, yna rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol hefyd i fodloni gofynion y cyfamed: 'gwneud beth sy'n iawn, caru ffyddlondeb, a rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw' (Micha 6: 8). Wrth gwrs,

mae'r Seioniaid crefyddol cymedrol yn gwneud yr un pwynt ag Ateek. Ond mewn gwlad lle mae llawer yn anwybyddu trydedd ran y gofyniad triphlyg, rhaid i'r pwyslais fod ar gyfiawnder. Mae Israel weithiau'n cwyno fod pobl yn disgwyl safon uwch o ffoesoldeb ganddi hi na gwladwriaethau eraill. Gwladwriaeth yw Israel, fel pob gwladwriaeth arall, a ddylai neb fynnu safon uwch neu is o ffoesoldeb ganddi. Mynnir weithiau y dylai'r Iddewon, o bawb, ofalu peidio â sarhau a gormesu'r bobl sydd yn awr o dan eu rheolaeth nhw. Mae rhai'n mynd â hyn ymhellach, ac yn cyhuddo Seioniaeth o fod yn hiliol, a Gwladwriaeth Israel o redeg system apartheid. Mae'r bobl sydd yn ei chanol hi, wrthi'n ceisio dod o hyd i ffordd ymlaen, yn gwrthod y math yma o gysylltiad emosynol â'r Holocaust. Un o'r bobl fwyaf disglair sy'n siarad ar ran y Palestinaid yw Hanan Ashrawi, sy'n Athro Saesneg ym Mhrifysgol y Lan Orllewinol. Mae hi'n gwrthod y gymhariaeth rhwng Israel a Natsiaeth yn bendant, ond fel y dywedodd yn y rhaglen ddogfen deledu rymus, *The Longest Hatred*: 'Wna i ddim gadael i ddioddefaint eraill roi'r hawl iddyn nhw wneud i mi ddioddef.' Mae'n mynd ei blaen i ddweud na allwch chi ddweud pwy sydd wedi dioddef fwyaf gan na allwch chi fesur poen. Dydy atgofion brawychus a chreithiau ddim yn cyfiawnhau dioddef pellach. Yn hytrach, rhaid ceisio osgoi achosion poen a dioddefaint y ddwy genedl yn llwyr.

Gofynion eraill heddwch

Os mai cyfiawnder yw'r man cychwyn, beth am heddwch? Pan arwyddodd Yitzhak Rabin a Yasser Arafat ddogfen gyd-gydnabyddiaeth Israel a'r PLO, roedd ymateb Iddewon yn amrywio o orfoledd eu bod 'ar drothwy oes newydd' i 'gondemnio hyn fel diwrnod du yn hanes Gwladwriaeth Israel'. Roedd ymateb yr Arabiaid yn gymysg hefyd, gyda'r Cadeirydd Arafat yn cael ei ddisgrifio fel arwr a bradwr. Mae tangnefeddwr i un person yn fradwr i berson arall. Gellir teimlo fod pob cyfiawnhad dros yr *Intifada* (gwrthryfel y Palestinaid) yn wyneb y gweryslyoedd ffoaduriaid a'r gwrthdaro milwrol mae'r Palestinaid wedi eu dioddef dros y blynyddoedd, ond, fel sy'n wir am bob gelyniaeth ddofn, nid a oes cyfiawnhad drosto yw'r cwestiwn pwysig, ond sut mae ei ddiwedd yn deg ac yn barhaol. Yn ei araith yn Washington, dywedodd Yitzhak Rabin mai gyda'n gelyniaeth y byddwn yn gwneud heddwch, nid ein ffrindiau. Dangosodd ei lofruddiaeth ym mis Tachwedd 1995 gan Iddew asgell-dde eithafol mewn rali heddwch yn Tel Aviv nid yn unig y bwlch rhwng Iddewon ar fater teyrngarwch Iddewig ond hefyd beth yw pris y cyfaddawd sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud heddwch.

heddwch, a bod hynny'n dibynnu ar rannu tir yn deg ac yn foddhaol. Mae llawer o'i nofelau, er enghraifft, *In the Land of Israel* a *Black Box* yn dadlau hyn. Er bod Oz wedi ymladd yn rhyfeloedd 1967 a 1973, mae'n credu mai rhyfel 1973 oedd diwedd hunan-ddelwedd ddisglair a llwyddiannus Israel. Yn y 1980au, roedd goresgyniad Libanus a'r lladdfa yng ngwersylloedd Sabra a Chatila, a ddigwyddodd o fewn ffiniau awdurdod milwrol Israel, yn destun dadlau mawr ymhlith Iddewon yn Israel a thu allan iddi. Dywedodd Amos Oz un tro nad oedd Israel 'naill ai'n genedl nac yn wlad' ond 'yn gasgliad o ddadleuon llog' ac yn 'ffederasiwn ddirdynol a rhanedig o freuddwydion'.

Gwnaeth datblygiadau yn y 1990au hyn yn fwy gwir nag erioed. O ganlyniad, aeth Israel i deimlo'n llai fel gwlad dan warchae. Gwnaeth y teimlad fod Israel wedi goroesi, a bod llai o ymosodiadau arni - rhai milwrol gan frwydwyr Arabaidd a rhai geiriol gan weddill y byd - iddi deimlo'n fwy diogel. Y peth arall pwysig oedd fod y byd yn derbyn fod record hawliau sifil Israel yn ddigon da i ganiatáu iddi ymuno â'r Cenhedloedd Unedig.

[**Nodyn golygyddol.** Yn anffodus, ers cyhoeddi'r gyfrol Saesneg yn 2003, mae'r sefyllfa wedi dirywio eto. Bu mwy o ymosodiadau hunan-laddol gan Balestinaid ac mae Sharon yn dal i adeiladu 'Wal Ddiogelwch' ar y Lan Orllewinol, i wahanu'r Palestinaid oddi wrth yr Israeliaid. Mae'r wal hefyd yn gwahanu llawer o gymunedau Palestinaid oddi wrth eu tir, eu gwaith ac ysgolion eu plant. Mae rhan arall strategaeth Sharon, sef tynnu'r fyddin a gwladychwyr Israelaidd allan o Lain Gasa, i fod i ddigwydd yn haf 2005 er gwaethaf gwrthwynebiad o fewn Israel ei hun.]

Mae'r amrywiaeth hunaniaethau Iddewig a welsom yn gynharach wedi mynd hyd yn oed yn fwy amrywiol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pobl yn fwy tueddol o fod â hunaniaeth ddeublyg, fel yr Affro-Americaniaid, Hispanig-Americaniaid, ac ati yn America. Cafodd y newnfudiad anferth o Iddewon o Rwsia (mwy na 700,000 ers 1989, sef mwy na 15 y cant o'r boblogaeth erbyn hyn) ei groesawu i ddechrau fel cam a fyddai'n cryfhau Seoniaeth. Ond mae'r Iddewon hyn wedi newid Israel yn sylfaenol, yn enwedig drwy benderfynu creu plaid ethnig lwyddiannus gyntaf y wlad. O dan gomiwnyddiaeth Sofietaidd, doedd Iddewod ddim yn eu huno ac eto, maen nhw'n awr yn ymladd etholiadau dan faner plaid Rwsiaidd-Israelaidd o'r enw *Ba'alah*. Eu harweinydd yw Natan Sharansky a dreuliodd naw mlynedd mewn carchar Sofietaidd yn y 1970au am geisio ymfudo i Israel.

Mae lleiafrifoedd ethnig eraill wedi ffurfio pleidiau gwleidyddol. O ganlyniad, mae rheolaeth Ewropeaidd-Ashkenazi dros y bywyd



Ar y cerrig yn y man hwn ar y ffin rhwng Libanus ac Israel, mae'r geiriau hyn mewn Arabeg, Hebraeg a Saesneg: ... *curant eu cleddyfau'n geibiau a'u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach* (Eseia 2: 4)

Heddiw, mae gwahaniaeth barn eang ymhlith Israeliaid a Phalestinaid ynglyn ag Awdurdod Cenedlaethol Palesteina. Mae Israeliaid o bob cred yn poeni am ystyriaethau diogelwch ac mae Israel yn cadw rheolaeth dros ardaloedd strategol bwysig, er eu bod yn cadw eu milwyr y tu allan i barthau annibynnol y Palestinaid. Mae cenedlaetholwyr crefyddol yn llwyr wrthwynebu gollwng gafael ar rannau o berfeddwlad feiblaidd Jwdea a Samaria. Mae Israeliaid mwy cymedrol yn credu y bydd yn rhaid trosglwyddo grym fel rhan o unrhyw gytundeb terfynol tymor-hir, a dydy'r rhain ddim yn credu fod y broses heddwch yn bygwth diogelwch Israel. Mae gorfoledd dechreuol y Palestinaid yn dechrau pylu. Mae eu hardaloedd yn wasgaredig ac mae'r anawsterau economaidd yn parhau. Dydy'r canlyniad terfynol oedd mewn golwg gan y cytundebau gwreiddiol ddim wedi digwydd; mae cwestiwn mynediad i Jerwsalem yn dal yn broblem. Mae cyfyngiadau diogelwch Israel yn fwrn, a rhaid i bobl fynd heibio i filwyr Israelaidd ar bob un o'r ffyrdd sy'n cysylltu'r gwahanol ardaloedd annibynnol. Heblaw am fynediad i Jerwsalem, mae angen trwyddedau ac mae llawer o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth yr holl beth.

Arwyddair Amos Oz, Israeliaid sydd wedi bod yn ymgyrchu dros heddwch ers amser maith, yw 'Heddwch, nid cariad'. Mae wedi dadlau'n gyson nad cariad sydd ei angen ar y Palestinaid ond

diwyllannol 'dan warchae', chwedl un ysgolhaig blaenllaw. Nid Arabiaid Israelaidd yw'r unig rai sy'n ceisio nid cymathiad cymdeithasol, ond statws gyfartal â'r Iddewon hynny sydd, hyd yma, wedi penderfynu sut mae Gwladwriaeth Israel yn ei mynegi ei hun yn 'Iddewaidd'. Mae pobl yn rhoi mwy o bwyslais ar wlad eu geni, ac yn hytrach nag ymrannu'n rhyfelwyr neu heddychwyr, asgell dde neu asgell chwith, crefyddol neu seciwlar yn unig, maen nhw hefyd yn ymrannu fel Morociaid neu Rwsiaid. Mae gwahaniaethau, a hyd yn oed rhaniadau ac anghyfarfalledd, wedi bod rhwng Iddewon gorllewinol a dwyreiniol yn Israel erioed. Ond mae'r Ashkenazim a'r Sefardim yn is-rannu'n fwy fyth o garfannau gwahanol yn awr, ac mae patrymau pleidleisio pobl yn gallu syfrdanu, hyd yn oed mewn system wleidyddol â'r fath allu cynhenid i syfrdanu ag un Israel. Nid Seioniaeth neu wrthwynebiad iddo yw'r unig beth sy'n diffinio pobl bellach.

Mae'r term 'ôl-Seionaid' yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i ddisgrifio Israel wedi 1998. Mae'r Wladwriaeth wedi cyrraedd ei hanner cant. Mewn arolwg o Israel yn 50 oed, daeth awdur yn yr *Economist* i'r casgliad nad yw 'gwleidyddiaeth Israel fodern ynglŷn â heddwch a rhyfel yn unig. Mae hefyd ynglŷn â pha fath o gymdeithas mae Israel heddychlon yn bwriadu bod' (Peter David yn *'After Zionism'*, 25 Ebrill 1998). Efallai y bydd y Wladwriaeth hon, fel y gobeithiai ei Phrif Weinidog cyntaf, yn 'ei phrofi ei hun nid drwy gyfoeth materol, nid drwy gryfder milwrol neu orchest dechnegol, ond drwy ei chymeniad moesol a'i gwerthoedd dynol'. Mae'n dibynnu pa fath o heddwch mae Israel yn ei geisio. Y cymbelliant dros dynnu allan o Libanus yn 2000, wedi'r cwbl, oedd peidio â cholli rhagor o fywydau milwyr Israelaidd. Dydy hyn ddim yn gwestiwn bellach o ble mae ffiniau Israel, ond o beth sy'n llifo i mewn ac allan o'r wlad, yn llythrennol ac yn drosiadol. Fel y dywedodd rhywun, dim ond wyth milltir sgwâr o fwch sydd rhwng Israel a Syria, ond mae hyn yn cynnwys glannau Mor Galilea sy'n darparu 40 y cant o gyflenwad dŵr Israel. Y cwestiwn nawr yw pa fath o gymdeithas y bydd Israel yn ei meithrin o fewn ei ffiniau. Byddai'r agwedd feiblaidd y soniodd Jonathan Sacks amdani yn mynd ymhellach ac yn gofyn beth mae Israel yn gobeithio ei roi i'r byd. Cwestiwn crefyddol yw hwn yn ei hanfod: beth yw pwmpas goroesiad Israel a'r grefydd Iddewig. Mae a all crefydd fod yn ffactor sy'n uno Israel yn hytrach na'i rhannu yn gwestiwn mwy perthnasol nag erioed, gan nad yw Seioniaeth bellach yn rym cryf sy'n rhwymu pobl ynghyd fel yr oedd pan oedd goroesi'n bwysicach na dim byd arall. Mae Israel wedi goroesi, ond goroesi i beth? Er mwyn bod yn ffyddlon i bwrpas Iddewiaeth a realiti gwleidyddol, mae'n rhaid i'r ateb sicrhau cyfiawnder a diogelwch i holl breswylwyr y wlad.

Gan mai amcan ymarferol yn hytrach nac academaidd sydd i'r gyfrol hon, gobeithio y bydd cyfeirio at rai o'r anawsterau yn gyfrwng gwella'r berthynas rhwng Iddewon a phobl o grefyddau eraill. Mae hynny'n golygu perthynas Cristnogion ac Iddewon yn bennaf, gan mai Cristnogion, yn aml iawn, sy'n ymddiddori'n neilltuol yn y grefydd yma ac sydd efallai'n rhagdybio fwyaf amdani.

Y rhagdybiaeth gyntaf yw fod Iddewiaeth a Christnogaeth yr un fath, yn y bôn. Mae hyn yn neilltuol o wir am y Cristnogion hynny sydd wedi deall mai dyma lle mae gwreiddiau Christnogaeth. Er bod hynny'n well na safbwynt pobl sy'n dweud yn syn 'Mae ganddyn nhw'n Salmau ni, hyd yn oed!', mae perygl y byddan nhw'n methu gweld gwahaniaethau gwirioneddol a phwysig. Canlyniad hynny weithiau yw'r hyn mae rhai wedi ei ddisgrifio fel 'monolog cyfochrog' yn hytrach na dialog.

Amlygir hynny weithiau yn syndod pobl pan glywan nhw nad yw Iddew yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau lle mae termau neu symbolau Cristnogol yn cael eu defnyddio. Mae pobl yn debycach o ddweud 'Alla' i ddim deall pam ddim, a ninnau'n credu yn yr un Duw' wrth Iddewon nag unrhyw grŵp crefyddol arall. Mae angen i bobl ddeall pŵer symbol allweddol Cristnogaeth, y Groes, i atgoffa Iddewon o gael eu cyhuddo gan Cristnogion o ladd Duw, y Croesgadau, ac ymdrechion diweddarach i orfodi Iddewon i droi'n Cristnogion. Ddylai hi ddim bod yn anodd deall heddiw pam nad yw Iddewon am ganu emynau ac adrodd gweddiau sy'n canolbwyntio ar Iesu fel Crist, Mab Duw, a'r Gwas Dioddefus. Mae'r ffaith fod Cristnogion yn gallu gweld symbolau Iddewig ac adrodd y litwrgi Iddewig heb deimlo'n anghysurus yn ychwanegu at eu dryswch. Mae'n